

Image not found or type unknown

# Cymwysterau a ffyrdd eraill o gofrestru

Gwybodaeth am y cymwysterau sydd eu hangen arnoch i gofrestru a beth sy'n rhaid i chi ei wneud i gofrestru os nad oes gennych y cymhwyster sydd ei angen.

Cyhoeddwyd gyntaf: 6 December 2018

Diweddariad olaf: 13 December 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o [gofalcymdeithasol.cymru](https://gofalcymdeithasol.cymru) ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/cymwysterau-sydd-eu-hangen> am y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth am y cymwysterau sydd eu hangen arnoch i gofrestru a beth sy'n rhaid i chi ei wneud i gofrestru os nad oes gennych y cymhwyster sydd ei angen.

## **Gweithwyr cartrefi gofal i oedolion**

Mae amryw o ffyrdd o gofrestru cyn bydd cofrestru'n orfodol i weithwyr cartrefi gofal.

### **1. Cofrestru gyda chymhwyster**

Gall weithwyr cofrestru gyda'r cymhwyster cyfredol City and Guilds Lefel 2 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, ond yna bydd angen iddynt gwblhau'r lefel 2 neu 3 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer o fewn tair blynedd.

Rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol gyflawni'r cymhwyster o fewn eu cyfnod cofrestru tair blynedd gyntaf, ond mae gan bob gweithiwr gofal cymdeithasol chwe blynedd i'w gwblhau.

Gall weithwyr sydd â chymhwyster Lefel 2 neu 3 yn lechyd a Gofal Cymdeithasol (Diploma, QCF neu NVQ) neu gymhwyster cyfwerth gofrestru drwy'r llwybr yma. Ond, nid yw'r cymwysterau yma ar gael i'w sefyll rhagor.

Beth y bydd angen i chi ei wneud:

- [Gwirio bod eich cymhwyster yn cael ei dderbyn er mwyn cofrestru](#)
- [Gwneud cais i gofrestru ar GCCarlein.](#)

## 2. Cofrestru drwy asesiad cyflogwr

[Gall cyflogwyr gadarnhau cais eu gweithwyr i gofrestru](#) ar ôl asesu eu dealltwriaeth yn erbyn rhestr o feysydd.

Rhaid i'r Cyflogwr fod yn hyderus bod gan y gweithiwr y ddealltwriaeth angenrheidiol fel y nodir yn asesiad y cyflogwr. Mae cyflogwr yn cwblhau'r asesiad hwn drwy gadarnhau'r wybodaeth yn eu cyfrif GCCarlien pan fydd gweithiwr yn cyflwyno cais ar-lein. Bydd angen i geisiadau ar-lein hefyd gael eu cymeradwyo gan y cyflogwr.

Bydd angen i weithwyr gofal cymdeithasol sy'n defnyddio llwybr asesiad gan gyflogwr i gofrestru gwblhau un o'r cymwysterau cyfredol a restrir yn y fframwaith cymwysterau. Rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol gyflawni'r cymhwyster o few eu cyfnod cofrestru tair blynedd gyntaf, ond mae gan bob gweithiwr ofal cymdeithasol chwe blynedd i'w gwblhau.

Darllenwch [ein cwestiynau cyffredin](#) am y llwybr asesiad gan gyflogwr.

## Gweithiwr gofal cartref

Mae amryw o ffyrdd o gofrestru fel gweithiwr gofal cartref:

### 1. Cofrestru gyda chymhwyster

Gall weithwyr cofrestru gyda'r cymhwyster cyfredol City and Guilds Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, ond yna bydd angen iddynt gwblhau'r lefel 2 neu 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer o fewn tair blynedd.

Rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol gyflawni'r cymhwyster o fewn eu cyfnod cofrestru tair blynedd gyntaf, ond mae gan bob gweithiwr gofal cymdeithasol chwe blynedd i'w gwblhau.

Gall weithwyr sydd â chymhwyster Lefel 2 neu 3 yn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diploma, QCF neu NVQ) neu gymhwyster cyfwerth gofrestru drwy'r llwybr yma. Ond, nid yw'r cymwysterau yma ar gael i'w sefyll rhagor.

Beth mae angen i chi ei wneud:

- Gwiriwch fod eich cymhwyster yn cael ei dderbyn er mwyn cofrestru mewn [gwasanaethau i oedolion](#) neu os ydych chi'n gweithio mewn [gwasanaethau i blant a phobl ifanc](#)
- [Gwneud cais i gofrestru ar GCCarlein](#).

## **2. Cofrestru drwy asesiad cyflogwr**

[Gall cyflogwyr gadarnhau cais eu gweithwyr i gofrestru](#) ar ôl asesu eu dealltwriaeth yn erbyn rhestr o feysydd.

Rhaid i'r Cyflogwr fod yn hyderus bod gan y gweithiwr y ddealltwriaeth angenrheidiol fel y nodir yn asesiad y cyflogwr. Mae cyflogwr yn cwblhau'r asesiad hwn drwy gadarnhau'r wybodaeth yn eu cyfrif GCCarlien pan fydd gweithiwr yn cyflwyno cais ar-lein. Bydd angen i geisiadau ar-lein hefyd gael eu cymeradwyo gan y cyflogwr.

Bydd angen i weithwyr gofal cymdeithasol sy'n defnyddio llwybr asesiad gan gyflogwr i gofrestru gwblhau un o'r cymwysterau cyfredol a restrir yn y fframwaith cymwysterau. Rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol gyflawni'r cymhwyster o fewn eu cyfnod cofrestru tair blynedd gyntaf, ond mae gan bob gweithiwr ofal cymdeithasol chwe blynedd i'w

gwblhau.

Darllenwch [ein cwestiynau cyffredin](#) am y llwybr asesiad gan gyflogwr.

Nid oes angen i weithwyr sy'n cofrestru drwy gael cadarnhad o'u cymhwysedd cyn mis Hydref 2022 wneud cymhwyster i ailgofrestru.

## **Gweithiwr gofal preswyl i blant**

Mae amryw o ffyrdd o gofrestru fel gweithiwr gofal preswyl i blant:

### **1. Cofrestru gyda chymhwyster**

Gall weithwyr cofrestru gyda'r cymhwyster cyfredol City and Guilds Lefel 2 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, ond yna bydd angen iddynt gwblhau'r lefel 2 neu 3 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer o fewn tair blynedd.

Rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol gyflawni'r cymhwyster o fewn eu cyfnod cofrestru tair blynedd gyntaf, ond mae gan bob gweithiwr gofal cymdeithasol chwe blynedd i'w gwblhau.

Gall weithwyr sydd â chymhwyster Lefel 2 neu 3 yn lechyd a Gofal Cymdeithasol (Diploma, QCF neu NVQ) neu gymhwyster cyfwerth gofrestru drwy'r llwybr yma. Ond, nid yw'r cymwysterau yma ar gael i'w sefyll rhagor.

Beth mae angen i chi ei wneud:

- [Gwirio bod eich cymhwyster yn cael ei dderbyn er mwyn cofrestru](#)

- [Gwneud cais i gofrestru ar GCCarlein.](#)

## 2. Cofrestru drwy asesiad cyflogwr

[Gall cyflogwyr gadarnhau cais eu gweithwyr i gofrestru](#) ar ôl asesu eu dealltwriaeth yn erbyn rhestr o feysydd.

Rhaid i'r Cyflogwr fod yn hyderus bod gan y gweithiwr y ddealltwriaeth angenrheidiol fel y nodir yn asesiad y cyflogwr. Mae cyflogwr yn cwblhau'r asesiad hwn drwy gadarnhau'r wybodaeth yn eu cyfrif GCCarlien pan fydd gweithiwr yn cyflwyno cais ar-lein. Bydd angen i geisiadau ar-lein hefyd gael eu cymeradwyo gan y cyflogwr.

Bydd angen i weithwyr gofal cymdeithasol sy'n defnyddio llwybr asesiad gan gyflogwr i gofrestru gwblhau un o'r cymwysterau cyfredol a restrir yn y fframwaith cymwysterau. Rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol gyflawni'r cymhwyster o few eu cyfnod cofrestru tair blynedd gyntaf, ond mae gan bob gweithiwr ofal cymdeithasol chwe blynedd i'w gwblhau.

Darllenwch [ein cwestiynau cyffredin](#) am y llwybr asesiad gan gyflogwr.

## Gweithwyr canolfannau preswyl i deuluoedd

Mae amryw o ffyrdd o gofrestru fel gweithiwr canolfan breswyl i deuluoedd.

### 1. Cofrestru gyda chymhwyster

Gall weithwyr cofrestru gyda'r cymhwyster cyfredol City and Guilds Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd, ond yna bydd angen iddynt gwblhau'r

lefel 2 neu 3 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer o fewn tair blynedd.

Rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol gyflawni'r cymhwyster o fewn eu cyfnod cofrestru tair blynedd gyntaf, ond mae gan bob gweithiwr gofal cymdeithasol chwe blynedd i'w gwblhau.

Gall weithwyr sydd â chymhwyster Lefel 2 neu 3 yn lechyd a Gofal Cymdeithasol (Diploma, QCF neu NVQ) neu gymhwyster cyfwerth gofrestru drwy'r llwybr yma. Ond, nid yw'r cymwysterau yma ar gael i'w sefyll rhagor.

Beth y bydd angen i chi ei wneud:

- [Gwirio bod eich cymhwyster yn cael ei dderbyn er mwyn cofrestru](#)
- [Gwneud cais i gofrestru ar GCCarlein.](#)

## **2. Cofrestru drwy asesiad cyflogwr**

[Gall cyflogwyr gadarnhau cais eu gweithwyr i gofrestru](#) ar ôl asesu eu dealltwriaeth yn erbyn rhestr o feysydd.

Rhaid i'r Cyflogwr fod yn hyderus bod gan y gweithiwr y ddealltwriaeth angenrheidiol fel y nodir yn asesiad y cyflogwr. Mae cyflogwr yn cwblhau'r asesiad hwn drwy gadarnhau'r wybodaeth yn eu cyfrif GCCarlien pan fydd gweithiwr yn cyflwyno cais ar-lein. Bydd angen i geisiadau ar-lein hefyd gael eu cymeradwyo gan y cyflogwr.

Bydd angen i weithwyr gofal cymdeithasol sy'n defnyddio llwybr asesiad gan gyflogwr i gofrestru gwblhau un o'r cymwysterau cyfredol a restrir yn y fframwaith cymwysterau. Rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cymdeithasol gyflawni'r cymhwyster o few eu cyfnod cofrestru tair blynedd gyntaf, ond mae gan bob gweithiwr ofal cymdeithasol chwe blynedd i'w

gwblhau.

Darllenwch [ein cwestiynau cyffredin](#) am y llwybr asesiad gan gyflogwr.

## Rheolwyr gofal cymdeithasol

Mae'r dolenni isod yn rhestru'r cymwysterau gofynnol i wneud cais i gofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol. Yn ogystal â'r llwybr hwn, rydym wedi cyflwyno llwybr newydd i gofrestru i gefnogi sefydliadau sydd â swydd wag i reolwyr.

Bydd gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n meddu ar y cymhwyster lefel 3 perthnasol neu Dystysgrif USW lefel 4 mewn Camu i Reoli, nawr yn gallu cofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol os ydych chi wedi ymrestru ar y cymhwyster rheoli lefel 4 neu lefel 5. Bydd hyn yn cychwyn cylch cofrestru newydd a bydd yn rhaid ichi gwblhau lefel 5 erbyn eich adnewyddu ymhen 3 blynedd. Os nad ydych eisoes wedi cofrestru gyda ni, gallwch [wneud cais i gofrestru ar GCCar-lein](#).

Yn ogystal, bydd gweithwyr cymdeithasol, nyrsys a therapyddion galwedigaethol nawr yn gallu cofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol gyda gofyniad i gwblhau cymhwyster rheoli o fewn tair blynedd gyntaf eich cofrestriad. Rhaid i'r cymhwyster rheoli fod yn isafswm o 37 credyd, wedi'i asesu yn y gweithle ac ar lefel 3 neu'n uwch.

## Beth os ydw i'n gweithio yn un o'r rolau hyn ond eisoes wedi cofrestru?

Bydd angen i chi gysylltu â ni ar [cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru) a gofyn naill ai am newid cofrestriad, neu gofrestriad ychwanegol.



Gofynnir i chi gadarnhau manylion cyflogaeth ar gyfer y rôl newydd ac mewn rhai achosion, byddwn yn ceisio cymeradwyaeth llofnodwr.

- [Rheolwr gwasanaethau mabwysiadu](#)
- [Rheolwr cartref gofal i oedolion](#)
- [Rheolwr lleoli oedolion/bywydau a rennir](#)
- [Rheolwr eiriolaeth \(gwasanaethau i blant\)](#)
- [Rheolwr gofal cartref \(gwasanaethau i oedolion\)](#)
- [Rheolwr gofal cartref \(gwasanaethau i blant\)](#)
- [Rheolwr gwasanaeth maethu](#)
- [Rheolwr gofal preswyl i blant](#)
- [Rheolwr canolfan preswyl i deuluoedd.](#)

## **Gweithiwr cymdeithasol**

[Cymwysterau sydd eu hangen er mwyn cofrestru fel gweithiwr cymdeithasol](#)

### **Gwasanaeth gwirio cymhwyster gwaith cymdeithasol**

Rydym yn cynnig gwasanaeth gwirio cymhwyster sy'n gwirio unrhyw gymhwyster cymeradwy mewn gwaith cymdeithasol a ddyfarnwyd yng Nghymru (gan gynnwys cymwysterau cyn y Radd Gwaith Cymdeithasol).

Gallwch ofyn am lythyr unigryw sy'n dangos:

- y cymhwyster a gafwyd
- dyddiad cymhwyso
- sefydliad hyfforddi a fynychwyd
- enw'r person a dderbyniodd y dyfarniad.

Noder y canlynol

- gall y gwasanaeth hwn gymryd hyd at 20 diwrnod gwaith
- dim ond at y sawl a gafodd y cymhwyster y gallwn ni anfon llythyrau gwirio
- mae angen caniatâd ysgrifenedig arnom i anfon y llythyr at gyflogwr neu asiantaeth gyflogaeth
- nid yw'r llythyr gwirio yn brawf o bwy ydych chi
- nid yw'r llythyr yn brawf bod person yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig cofrestredig
- mae gan gyflogwyr gyfrifoldeb i wirio'r manylion hyn.

Os ydych eisiau derbyn llythyr gwirio ar gyfer cymhwyster a ddyfarnwyd yng Nghymru, dylech gwblhau'r ffurflen gais am lythyr gwirio isod a'i hanfon atom mewn e-bost i [cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru](mailto:cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru).

[Ffurflen gais ar gyfer llythyr gwirio](#)

DOCX 93KB

## Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, [cysylltwch â ni](#).